

RYDYM YN recriwtio

UCHAFBWYNTIAU Y SWYDD





Cynorthwy-ydd Bwyd a Diod / Blaen Tŷ

Gwybodaeth Allweddol

Cyflog: £12.26 yr awr

Oriau: Oriau llawn amser, rhan amser ac achlysurol ar gael

Ynglŷn â'r Swydd

Mae gennym swyddi ar gael mewn safleoedd yn Y Rhyl a Phrestatyn, o SC2, sy'n berffaith i deuluoedd, i ymdeimlad egsotig Ibiza yng Nghwt y Traeth, a cheinder hamddenol 1891. Mae'r holl gyfleusterau ar agor 7 diwrnod yr wythnos, ac rydym yn croesawu ceisiadau gan rai sy'n chwilio am waith llawn amser neu ran amser.

Byddwch yn gyfrifol am gyfarch cwsmeriaid ac estyn croeso iddynt. Byddwch yn cymryd archebion bwyd a diod, prosesu taliadau, danfon yr archebion hynny a glanhau byrddau ar ôl i'r cwsmer adael. Mae'ch rôl yn bwysig i sicrhau bod y cwsmer yn teimlo'n hapus gyda'u hymweliad, a dyma'r gwahaniaeth weithiau i sicrhau bod rhywun yn dod yn ôl ac yn ein hargymell i eraill.

Byddwch yn gweithio fel rhan o dîm gan wneud yn siŵr bod y safle'n lân a thaclus, nôl mwy o stoc pan fydd y cyflenwad yn isel a darparu gwasanaeth rhagorol i gwsmeriaid. Rydym yn gweini ar filoedd o gwsmeriaid ac mae'n bwysig i ni fod ar bob un ohonynt eisiau dod yn ôl.

Mae'r pecyn yma ar gael yn y Gymraeg hefyd / This pack is also available in Welsh



Cynorthwy-ydd Bwyd a Diod / Blaen Tŷ

Amdanoch Chi

Nid oes angen unrhyw brofiad na chymwysterau arnoch, mae gennym lawer mwy o ddiddordeb ynoch chi fel unigolyn. Gallwn roi hyfforddiant i chi yn yr holl feysydd penodol y swydd.

Bydd ein hymgeisydd delfrydol yn rhywun sy'n hoffi cymdeithasu ag eraill ac sydd wir yn mwynhau siarad â phobl a bod o'u cwrpas. Byddwch yn barod eich gwên a bob amser yn torchi llewys a helpu i wneud y gwaith. Rydym yn chwilio am bobl sy'n gallu gweithio'n gyflym ac sy'n falch o'r hyn maen nhw'n ei wneud.

Rydym yn denu miloedd o bobl leol ac ymwelwyr i'r ddau safle drwy gydol y flwyddyn. Felly, mae arnom angen rhywun sy'n gallu gweithio'n gyflym, ac sy'n mwynhau cadw'n brysur. Byddwch yn unigolyn cyfeillgar, agos atoch a pharod eich cymwynas.

Rydym yn chwilio am bobl yn nifer o'n safleoedd ar yr arfordir, felly cofiwch roi gwybod ym mha un y mae gennych fwyaf o ddiddordeb ynddo:

- **Cwt y Traeth** - bwyty ar lan y môr â bwydlen fodern ac ymdeimlad o'r haf
- **Bwyty 1891** - bwyty soffistigedig ble gallwch fwyta dan do neu yn yr awyr agored
- **SC2** - atyniad i deuluoedd gyda Pharc Dŵr, Ninja TAG a Chwarae Antur, nifer o ardaloedd bwyta, yn cynnwys y Bwyty Coedwig Law, y Caffi Chwarae Antur a'r Dyfrle.



Cynorthwy-ydd Bwyd a Diod / Blaen Tŷ

Amdanom Ni

Trwy fuddsoddiad parhaus dros 12 mlynedd, mae HSDdCyf wedi datblygu portffolio o gyfleusterau sy'n arwain y sector, gan gynnwys 7 cyfleuster ffitrwydd premiwm, 7 darpariaeth bwyd a diod unigryw, 2 atyniad anhygoel a theatr syfrdanol â 1,000 o seddi.

Mae tîm HSDd yn dîm sefydledig, angerddol sy'n cael ei yrru, gyda diwylliant o berfformiad uchel a gwasanaeth cwsmeriaid rhagorol. Mae ein llwyddiannau yn y gorffennol wedi ein harwain i ble'r ydym heddiw, gydag enw rhagorol yn ein holl gyfleusterau, a thîm gweithgar sy'n ffynnu ar y cwsmer yn cael y profiadau gorau posibl.

Rydyn ni'n gweithio i athroniaeth 'un tîm, un cyfrif banc' - rydyn ni i gyd yn un tîm, pa waeth ym mha safle rydych chi wedi'ch lleoli. Gyda'n gilydd rydyn ni i gyd yn cyfrannu at wneud HSDdCyf yn llwyddiannus

Ein Gwerthoedd



Uchelgais a Thwf



Ymddiriedolaeth ac Uniondeb



Rhagoriaeth a Gwydnwch



Balchder ac Angerdd



Buddion Staff

Mae ein gweithlu o'r pwys mwyaf i ni ac rydym wedi ymrwymo i gynorthwyo staff i sicrhau cydbwysedd cadarnhaol rhwng bywyd a gwaith. Mae gan holl weithwyr HSDd hawl i amrywiaeth o fudd-daliadau, gan gynnwys:

- Aelodaeth campfa staff HSDd gostyngedig
- Cyfleoedd dysgu a datblygu personol a phroffesiynol
- Gwyliau blyneddol yn dechrau ar 26 diwrnod + gwyliau banc (gyda'r cyfle i ennill mwy)
- Cefnogaeth ar gyfer ceisiadau am seibiannau gyrfa ac secondiadau
- Amrywiaeth o bolisiâu teulu-gyfeillgar i gefnogi'ch cydbwysedd rhwng bywyd a gwaith

Lleoliad: Mae swyddi ar gael yn Y Rhyl a Phrestatyn.

Dyddiad Cau: 24.03.25

Ymgeisiwch ar ein gwefan: <https://denbighshireleisure.co.uk/cy/gyrfaoedd/>